

GOUGE, THOMAS (1605? - 1681), gweinidog Anghydffurfiol a dyngarwr

Enw: Thomas Gouge
Dyddiad geni: 1605?
Dyddiad marw: 1681
Priod: Anne Gouge (née Darcy)
Rhiant: William Gouge
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Anghydffurfiol a dyngarwr
Maes gweithgaredd: Crefydd; Dyngarwch
Awdur: Mary Clement

Ganwyd yn Stratford le Bow, Llundain, 19 Medi 1605 (yn ôl *D.N.B.*, 29 Medi 1609), mab hynaf Dr. William Gouge. Addysgwyd ef yn ysgol Eton ac yng Ngholeg y Brenin, Caergrawnt, lle y derbynwyd ef 16 Awst 1625 (B.A., M.A., ac yn gymrawd, 16 Awst 1628). Ordeiniwyd ef yn 1634 a gadawodd Gaergrawnt y flwyddyn ganlynol. Yn ystod 1635 apwyntiwyd ef yn rheithor Coulsdon, Surrey, ac arhosodd yno hyd 1638 pan dderbyniodd fywoliaeth S. Sepulchre, Llundain. Yn 1639 priododd Anne, merch Syr Robert Darcy.

Yn ei blwyf yn Llundain holai yr hen bobl a'r tlodian yn rheolaidd yn y Catecism, gan rannu arian yn eu mysg unwaith yr wythnos, ond newidiodd y dydd o bryd i bryd er mwyn cael cynulliadau da. Yn 1662, collodd ei fywoliaeth oherwydd ei anghytundeb â'r Ddeddf Unffurfiaeth, ac yn ystod y blynnyddoedd 1662-71 casglodd ef, ynghyd â rhai o'i gyfeillion, swm mawr o arian i gynorthwyo clergiwrw yllotaf Llundain a ddiarddelwyd. Yn 1671 darllenodd gofiant Joseph Alleine, gweinidog anghydffurfiol Taunton a oedd wedi gosod ei fryd ar efengylleiddio Cymru ond a rwystrwyd yn ei amcan gan farwolaeth. Penderfynodd Gouge didlyn ei gynnlluniau. Ymwelodd â Chymru gan sefydlu nifer o ysgolion, a daeth i gysylltiad â **Stephen Hughes** ynglyn â'r gwaith o ddosbarthu llyfrau Cymraeg. Apeliodd am danysgrifiadau drwy Loegr a Chymru er mwyn hyrwyddo'i waith ac, yn 1674, trefnwyd Ymddiriedolaeth Gymreig (y 'Welsh Trust') a noddyd gan brif arweinwyr crefyddol y dydd. Cyfaenwyd tua 300 o ysgolion i ddysgu plant tlodian Cymru i ddarllen ac ysgrifennu Saesneg, i gyfrif, ac i adrodd y Catecism. Cyfeithwyd llawer o llyfrau i'r Gymraeg er budd y bobl hynaf, y llyfrau hyn yn cynnwys peth o waith Gouge ei hun; yn 1677, cyhoeddwyd argraffiad wythplyg o'r *Beibl* Cymraeg dan olygaeth **Stephen Hughes**. Pan fu Gouge farw yn 1681 daeth yr ysgolion i ben, ond dosbarthwyd llenyddiaeth Gymraeg am beth amser ar ôl hyn. Defnyddiwyd gweddill arian yr Ymddiriedolaeth i sefydlu ysgolion elusennol yn Llundain, a gellir cyfrif y mudiad fel sylfaen holl gymdeithasau gwirfoddol dros addysg y tlodian yn y 18fed ganrif.

Awdur

Dr Mary Clement

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

John Tillotson, *A sermon preached at the funeral of the reverend Benjamin Whichcot*(1683)

Thomas Rees, *History of Protestant Nonconformity in Wales from its rise in 1633 to the present time* (London 1883)

Thomas Shankland, 'The Charity School Movement,' *Trafodion Anrhyydeddus Gymdeithas y Cymrodorion*, 1904-5

A. G. Matthews, *Calamy revised being a revision of Edmund Calamy's Account of the ministers and others ejected and silenced, 1660-2*(1934)

M. G. Jones, 'Schools of the Welsh Trust, 1675-8,' *Bulletin of the Board of Celtic Studies*, 1937

M. G. Jones, *The charity school movement a study of eighteenth century puritanism in action* (1938)

Mary Clement, *Correspondence and minutes of the S.P.C.K. relating to Wales 1699-1740* (University of Wales Press 1952)

Mary Clement, *The S.P.C.K. and Wales, 1699-1740* (S.P.C.K. 1954)

Delweddau

Francois van den Hoeye, [The Reverend Mr. Thomas Gouge](#)

Michael van der Gucht, [The Reverend Mr. Thomas Gouge](#)

Gweithiau

Thomas Gouge, William Jones (cyf.), *Gair i bechaduriaid a gair i'r sainct* (Llundain 1676)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [315944836](#)

Wikidata: [Q7790119](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

[PDF](#) [Argraffu](#) [Cyfeirnodi](#)

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Clement, M., (1953). GOUGE, THOMAS (1605? - 1681), gweinidog Anghydffurfio a dyngarwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-GOUG-THO-1605>



Preifatrwydd a Chwcius
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Noddiadau
Llywodraeth Cymru
Government
of Wales